YR

# ARGRAFFWASG

Llais y dref ers 1375 | Taliesin Bryant | Mai, 1403

# OWAIN YN CIPIO CAERFYRDDIN

## CAM BEIDDGAR GAN OWAIN!



Mae'r chwyldroadwr Owain Glyndŵr wedi cael buddugoliaeth syfrdanol drwy gipio Castell Caerfyrddin. Yn ei ymgais i oresgyn de-orllewin Cymru, gorymdeithiodd gwŷr Glyndŵr trwy Aberhonddu, gan drechu'r garsiwn Seisnig. Mae hyn yn nodi eiliad hollbwysig yn ei ymgyrch dros annibyniaeth i Gymru ac yn ergyd drom yn erbyn rheolaeth Lloegr yng Nghymru. Ar ôl methu â chipio Hwlffordd, ai dyma'r trobwynt i Owain Glyndŵr?

Adroddir fod ei fyddin bellach wedi cyrraedd dros 8000 o wŷr, gyda channoedd o saethwyr Cymreig a gwŷr arfbais brofiadol yn amddifadu o fyddin Harri i chwyddo rhengoedd Glyndŵr.

*"Roedd gweld milwyr fu unwaith yn ymladd dros Harri nawr yn gorymdeithio gydag Owain yn ein llenwi âgobaith a balchder,"*

meddai un o drigolion tref Caerfyrddin.

*"Dangosodd i ni fod hyd yn oed y gelyn yn credu yn ein hachos ac yn cryfhau ein penderfyniad i frwydro dros ryddid i Gymru fach."*

## GATIAU TANLLYD A MURIAU SYRTHIEDIG

Dywedodd llygad-dystion fod y gwarchae a ddechreuwyd gyda gwŷr Glyndŵr yn amgylchu'r castell, a thrwy hynny dorri cyflenwadau a chyfathrebu. Defnyddiodd ei ddynion gyfuniad o dactegau gwarchae traddodiadol a strategaethau arloesol.

Daethpwyd ag injans gwarchae, megis trebuchets a hyrddod curo, i'r blaen i ymosod ar waliau'r castell.

Dywedodd dyn lleol, a oedd yn dyst i'r gwarchae wrth iddo ffoi o'r dref,

*"Roedd yna saethau tân yn hedfan trwy'r awyr ac roeddwn i'n gallu arogli'r tar roedden nhw'n ei losgi i osod y giatiau pren ar dân. Roedd fy mhlant yn crio ac roedd eu llygaid yn llosgi oherwydd y mygdarth."*



*Glyndŵr yn troi ei gefn at reolaeth Seisnig, wedi ei fraslunio gan arlunydd y foment Efan Jones, Llandeilo.*

Yn ôl adroddiadau, wrth i'r gatiau gwanhau, bu milwyr o Gymru'n ymosod, gan frwydro'n ffyrnig o law yn llaw ag amddiffynwyr Lloegr.



*Tynnwyd y llun gan Owen Morgan, arlunydd nodedig o Gaerfyrddin.*

## BETH NESAF I ARWR Y CYMRO?

Yn dilyn cipio Castell Caerfyrddin, nid yw ymgyrch Owain Glyndŵr yn dangos unrhyw arwyddion o arafu. Mae adroddiadau'n awgrymu y gallai llynges Ffrengig ymuno â Glyndŵr yn fuan, gan gryfhau ei gryfder milwrol yn sylweddol. Mae ffynhonnell fewnol yn datgelu bod Glyndŵr wedi gosod ei fryd ar gestyll Caernarfon ac Aberystwyth fel ei dargedau nesaf. Gyda chefnogaeth gynyddol a chynlluniau uchelgeisiol, mae cenhadaeth Glyndŵr am annibyniaeth i Gymru yn magu momentwm, gan fygwth tarfu pellach ar reolaeth Lloegr yn y rhanbarth.

Y cyfan sydd i'w ofyn yn awr yw:

PA MOR HIR CYN I OWAIN GLYNDŴR GAEL EI GORONI'N DYWYSOG CYMRU?